



# Diweddariad Cymunedol

Hydref/Gaeaf 2019



## Yn y rhifyn hwn

**P2** Teithiau Cerdded Amgylchedd Ysbrydoledig, Cynllun Gweithredu Adfer Natur

**P3** Camau Bychain, Gwirfoddoli

**P4** Beleod, Heneiddio'n Egniol, Ysgolion Llysgennad

**P5** Hyfforddeion 'Sgiliau Gwledig', Pwynt Darganfod y Geoparc, Canolfan Groeso Talyllun

**P6** Adfer Coetiroedd Hynafol, Goresgynwyr y Parc Cenedlaethol, Gardd Henry Vaughan

**P7** Blodau Gwyllt, Pobl Ifanc yn Helpu'r Amgylchedd

**P8** Partneriaeth Defnydd Tir y Mynydd Du, Gwlad y Sgydau

**P9- P11** Digwyddiadau a Manylion Cyswllt yr Awdurdod

## Helo a chroeso

i Rifyn yr Hydref/Gaeaf o Ddiweddariad Cymunedol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

**Mae Bannau Brycheiniog yn eu blodau! Fel Cadeirydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, rydw i wedi derbyn adborth gwych ynghylch y blodau gwyllt a blannwyd yn Aberhonddu gan ein staff, partneriaid a hyfforddeion yn y gwanwyn. Gweler tudalen 7 am ragor o wybodaeth am y fenter hon.**

Mae'n hysbys bod treulio amser yn yr awyr agored yn cael effaith bositif ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Mae dau brosiect sy'n cael eu cynnal gan yr Awdurdod sy'n annog pobl i fentro y tu allan, sef prosiectau 'Camau Bychain' a 'Heneiddio'n Egniol'. Mae'n bleser clywed pa mor llwyddiannus yw'r rhain a'r buddion go iawn mae pobl yn eu cael o fod yn ein Parc Cenedlaethol. Gweler tudalennau 3 a 4 am ragor o wybodaeth.



Y Cyngh. Gareth Ratcliffe Cadeirydd APCBB

Mae ein hymdrech i fod yn fwy effeithlon o ran ynni yn golygu bod ein cynlluniau ynni dŵr a solar wedi cynhyrchu digon o drydan i fynd â char trydan i'r lleud ac yn ôl, sef 736,000 o filltiroedd. Mewn cwta chwe mis, llwyddodd y panel solar bychan 10kw yn Depo yr Awdurdod yn Ystad Ddiwydiannol Ffrwdgrech i ddarparu digon o bŵer i yrru ein Hyundai Kona newydd bron i 28,000 milltir, sy'n cyfateb i gylchedd y Ddaear. Dyma pam fo'r Awdurdod newydd gael ei enwi'n un o ddau sefydliad 'Go Ultra Low' yng Nghymru.

Mae ein ffylid o gerbydau'n helpu staff i deithio o gwmpas y gymuned, i gynnal amrywiaeth o wasanaethau sydd o fudd i bobl sy'n byw, gweithio ac ymweld â'r Parc Cenedlaethol.

Yn ddiweddar rydyn ni wedi dechrau cefnogi menter 20/20 Aberhonddu sy'n gweithio tuag at gael Cynllun Bro i Aberhonddu. Gyda chynrychiolwyr o Gyngor y Dref a grwpiau lleol, mae gwaith i ddadansoddi holiadur preswylwyr a datblygu cynllun gweithredu wedi dechrau.

Mae timau hefyd yn cynorthwyo gyda phroses Ardal Gwella Busnes Aberhonddu, gan weithio gyda busnesau lleol i ddeall sut y gallai statws AGB gyfoethogi busnesau a'r dref.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol wrth fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'r Parc Cenedlaethol. Mae'n galonogol gweld sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithiol gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus a byddaf yn helpu'r Awdurdod i gynnal a datblygu perthnasoedd nawr ac yn y dyfodol.

Y Cyngh. Gareth Ratcliffe, Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.



Os hoffech gael eich enw ar ein rhestr bostio i dderbyn y cylchlythyr hwn, cofiwch gysylltu â'r Tîm Cymunedau drwy gyfrwng y Rhestr A-Z o Wasanaethau ar ddiwedd y cylchlythyr hwn. Mae'r cylchlythyr ar gael ar-lein hefyd yn <http://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/diweddariad-cymunedol/>



Aelodau Pobl Caerdydd yn Gyntaf ar gopa Pen-y-Crug

## Teithiau Cerdded 'Amgylchedd Ysbrydoledig'

Cyfansoddiad o deithiau cerdded a gweithgareddau sy'n cael eu rhedeg gan Dîm Cymunedau Cynaliadwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw Amgylchedd Ysbrydoledig.

Mae'r rhain wedi eu cynllunio i annog grwpiau bregus a grwpiau sy'n cael eu heithrio'n gymdeithasol i grwydro Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wrth inni gydnabod budd bod yn yr awyr agored a bod yn egniol i'n hiechyd a'n lles. Mae'r teithiau cerdded yn addas i bob gallu, o bobl sy'n defnyddio cadair olwyn i bobl sy'n gallu ymgymryd â heriau mynyddig mwy anturus, ac maen nhw'n cael eu cynnal ledled y Parc. Pan fo'n bosibl mae'r teithiau cerdded yn cyd-fynd â llwybrau trafniadaeth gyhoeddus er mwyn annog grwpiau i ddechrau ar ben eu hunain rywbryd eto.

Rydyn ni wedi croesawu grwpiau o L'Arche Aberhonddu a Pobl Caerdydd yn Gyntaf, sydd wedi bod ar deithiau cerdded ac wedi gwneud gweithgareddau gyda ni. Rydyn ni wedi bod yn crwydro mynyddoedd ac afonydd, camlesi a choetiroedd yn ogystal â defnyddio ffotograffiaeth a nodi planhigion ac anifeiliaid i gael gwell dealltwriaeth o'r Parc Cenedlaethol. Mae'r ddau grŵp wedi dweud eu bod nhw'n teimlo'n llawer mwy hyderus yn mynd allan ar ben eu hunain. Maen nhw wedi darganfod nifer o leoedd nad oedden nhw'n sylweddoli y gallen nhw fynd iddyn nhw gyda'u hamrywiaeth cymysg o allu, na pha mor hawdd oedd eu cyrraedd.



Lansiad y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru eleni ar stondin Coed Cadw gyda myfyrwyr o Ysgol Uwchradd Aberhonddu.



## Dyfodol â Natur wrth ei Wraidd

Mae'r Parc Cenedlaethol yn gartref i amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau, rhai ohonynt sy'n unigryw i'r ardal.

Fel rhan o ymdrechion ledled Cymru, yn ddiweddar lansiodd Partneriaid Natur Lleol Gynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn anad dim, mae'r Cynllun yn 'alwad daer i weithredu' ac mae'n gosod uchelgais i helpu gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy ddatblygu rhwydweithiau natur sy'n fwy amrywiol, yn fwy eu maint, o dan amodau ecolegol gwell a mwy cydgyssylltiedig.

Gall pethau mawr ddigwydd yn y Parc Cenedlaethol, ac mae pethau mawr yn digwydd yma. Ond mae'r heriau'n ormod i unrhyw sefydliad, cymuned neu dirfeddiannwr fynd i'r afael â nhw ar ei ben ei hun. Dim ond drwy gydweithio ar draws ffiniau daearyddol, ar draws gwahanol ddefnydd o dir a thryw gynnwys pawb y gellir adfer natur ar raddfa ystyrlon. Ar sail hyn mae Partneriaid Natur Lleol wedi dod ynghyd i wneud y mwyaf o ymdrechion i adfer natur a gweithio tuag at ddyfodol sydd â natur yn wraidd iddo – i bawb.

Os hoffech wybod mwy, mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur i'w weld yn: <https://www.beacons-npa.gov.uk/environment/nature-recovery-action-plan/>

## Coedwig Gymunedol Talgarth

Planhigfa 167 erw ar gyrion Talgarth sy'n eiddo i Coed Cadw yw Coedwig Talgarth, mae bellach yn cael ei rheoli gan grŵp cymunedol sy'n creu ardal o goetir hynafol.

Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy wedi bod yn allweddol wrth sefydlu'r grŵp drwy ariannu hyfforddiant ac offer fel y gall gwirfoddolwyr weithio'n ddiogel ac yn effeithiol i deneuo'r ffawydd gorlawn. Gan ddefnyddio ceffylau, winshys a phŵer dynol, nid yw'r dull yma o weithio'n drwm ar y ddaear, sy'n golygu bod yr amgylchedd a chynefinoedd bywyd gwyllt yn cael eu diogelu. Mae'r grŵp wedi gweithio cystal fel bod Coed Cadw wedi bod yn ddigon hyderus i roi statws contractwr iddyn nhw am y 5 mlynedd nesaf. Mae'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar y prosiect yn cael budd nid yn unig o ymarfer corff a chymdeithasu ond maen nhw hefyd yn gallu gadael gyda chefn y car yn llawn pren ar gyfer eu stofiau. Mae grwpiau cymunedol fel hyn yn hanfodol i helpu rheoli a gwarchod ein tirwedd, felly os ydych chi'n ystyried sefydlu prosiect tebyg siaradwch ag un o swyddogion y Gronfa Datblygu Cynaliadwy i weld a allwn ni eich helpu chi.



Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Ceri neu Helen ar [communities@beacons-npa.gov.uk](mailto:communities@beacons-npa.gov.uk). Gallwch chi wyllo ffilm fer rydyn ni wedi ei chynhyrchu am y prosiect yma: [https://youtu.be/\\_2Ik-PWXJIM](https://youtu.be/_2Ik-PWXJIM)

Aelodau L'Arche yn crwydro.

Gwirfoddolwyr yng Nghoedwig Gymunedol Talgarth



Diwrnod tynnu lluniau clychau'r gog  
Coed Cefn

## Prosiect Camau Bychain

Prosiect ymchwil gweithredol peilot a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cael ei redeg gan dîm Cymunedau Cynaliadwy APCBB yw Camau Bychain, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Ei nod yw gwella iechyd a lles trigolion sy'n byw yn ardal y Parc Cenedlaethol sydd â chyflwr iechyd meddwl tymor hir.

Mae'r cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys gwehyddu helyg, ffotograffiaeth, gwyllo adar, teithiau cerdded hanesyddol lleol a theithiau cerdded tywys eraill ar hyd a lled y Parc Cenedlaethol.

Mae'r adborth hyd yn hyn wedi bod yn galonogol iawn ac mae wedi bod yn wych gweld sut mae'r cyfranogwyr wedi dod yn fwy cysylltiedig â'r amgylchedd ac yn fwy hyderus wrth ryngweithio'n gymdeithasol.

'Mae cerdded wedi fy ngwneud i'n fwy iach, yn fwy heini a dwi'n teimlo'n well yn feddyliol ac yn gorfforol' meddai un o'r cyfranogwyr.

Cam nesaf y prosiect yw helpu datblygu annibyniaeth y cyfranogwyr drwy fagu eu hyder i gynllunio teithiau cerdded a gweithgareddau, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n hawdd eu cyrraedd ar drafndiaeth gyhoeddus.

Er bod yr ymchwil yn dal i fynd rhagddo, mae adborth gan y cyfranogwyr a thystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod manau gwyrdd y Parc Cenedlaethol wedi bod yn fuddiol iawn i les y cyfranogwyr (a'r staff sy'n cymryd rhan!).



Mwynhau Gwlad y Sgydau.



## Gwirfoddoli i Warchod ein Treftadaeth

Mae Gwirfoddolwyr Treftadaeth Awdurdod Parc Bannau Brycheiniog wedi bod yn crwydro hwnt ac yma, yn cofnodi cyflwr rhai o'n safleoedd archeolegol mwyaf gwerthfawr.

Gan ddefnyddio system gofnodi a ddyfeisiwyd gyda Cadw a chofnodydd maes ar-lein arbennig a ddatblygwyd ar gyfer y prosiect, mae gwirfoddolwyr yn ein helpu i fonitro cyflwr yr henebion hanesyddol rydyn ni'n gofalu amdanynt trwy greu cofnod ysgrifenedig a ffotograffig, cofnodi cyflwr newidiol ein safleoedd a thynnu sylw at unrhyw fygythiadau neu ddiifrod i'n hamgylchedd hanesyddol.

Mae'r gwaith a wneir gan ein gwirfoddolwyr yn ein helpu ni i lunio darlun tymor hir o gyflwr y safleoedd archeolegol sy'n eiddo inni, gan ein galluogi ni i nodi tueddiadau, nodi newid a gyda help y Wardeiniaid Ardal a thimau cadwraeth gwirfoddol, datblygu prosiectau wedi eu targedu i ddiogelu a gwella cyflwr rhai o'n henebion archeolegol pwysicaf.



Gwirfoddolwyr ar leoliad.

## Cyfleoedd i Wirfoddoli yn y Parc Cenedlaethol

Mae gwirfoddolwyr yn gweithio gyda Wardeiniaid i helpu gyda'r amrywiaeth eang o dasgau ymarferol sydd angen eu cyflawni er mwyn cynnal a gwella'r Parc Cenedlaethol. Gall hyn gynnwys gwneud gwaith ar lwybrau, ffensio, trwsio gataiau, clirio cyrsiau dŵr, cwmpo coed ac amrywiaeth eang o dasgau ymarferol eraill. Cynhelir y partion gwaith hyn mewn amrywiol leoliadau ar hyd a lled y Parc. Mae grŵp Aberhonddu yn cyfarfod ar ail a phedwerydd dydd Mawrth y mis. Mae grŵp Ardal y Gorllewin yn cyfarfod ar ddydd Mercher cyntaf a thrydydd dydd Mercher y mis. Mae'r grŵp gwaith ymarferol yng ngwlad y Sgydau cyfarfod ar ail ddydd Sadwrn y mis.

Mae Wardeiniaid Patrôl Gwirfoddol yn helpu pobl sy'n ymweld â'r ardal. Mae hyn yn cynnwys patrolio meysydd parcio, rhoi cyngor ac arweiniad i'r cyhoedd, casglu sbwriel a hysbysu'r Wardeiniaid o unrhyw ddiifrod neu bryderon. Yr ardaloedd o dan sylw yw'r Sgydau a Chanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol (Canolfan y Mynydd).

**Mae'n rhaid i wirfoddolwyr fod dros 18 oed. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â [volunteer.officer@beacons-npa.gov.uk](mailto:volunteer.officer@beacons-npa.gov.uk)**



Codi lloches i'w lle er mwyn hybu ymlediad beleod yn y Parc Cenedlaethol.

## Prosiect Beleod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

**Rhwng 2015 a 2017 trawsleolodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent 51 bele o Uwchdiroedd yr Alban i ganolbarth Cymru er mwyn atgyfnerthu'r boblogaeth frodorol oedd yn dirywio.**

Mae'r prosiect wedi cael cyllid gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ac yn ystod y tair blynedd nesaf byddan nhw'n gosod 60 bocys lloches ac yn monitro'r ardal gyda 40 camera cudd er mwyn dilyn ymlediad y bele yn ôl i mewn i'r Parc Cenedlaethol.

Bydd Gwirfoddolwyr Ucheldiroedd Bannau Brycheiniog yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent i nodi safleoedd addas ar gyfer llochesau i Wirfoddolwyr yr Ucheldiroedd eu codi yn y Parc Cenedlaethol. Bydd Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Gwent yn adeiladu 60 bocys lloches i Wirfoddolwyr yr Ucheldiroedd eu codi yn y Parc Cenedlaethol a chaiff y bocsys hyn eu monitro'n barhaus gan ddefnyddio arolygon maes a chamerau cudd bywyd gwyllt.

Dywedodd y Swyddog Cadwraeth Jason Rees sy'n cydlynw'r prosiect, "Mae hwn yn gyfle cyffrous iawn i Wirfoddolwyr yr Ucheldiroedd allu ehangu eu rhaglen waith yn yr uwchdiroedd sydd eisoes yn helaeth a helpu hybu poblogaeth y rhywogaeth eiconig hon ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog."

**Os oes diddordeb gennych chi mewn gwirfoddoli yn y Parc Cenedlaethol cysylltwch â'r Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr [volunteer.officer@beaconsnpa.gov.uk](mailto:volunteer.officer@beaconsnpa.gov.uk)**



## Teithiau Cerdded Heneiddio'n Egniol ar gyfer Pobl Hŷn

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi bod yn cynnal y Prosiect Heneiddio'n Egniol ers dechrau 2019. Mae'r prosiect yn darparu teithiau cerdded hamddenol iawn, wedi'u teilwra ar gyfer y sawl sy'n cymryd rhan, ac sy'n aml yn dod i ben gydag ymweliad cymdeithasol â chaffi.

Ar hyn o bryd mae yna bedwar grŵp cerdded egniol; un wedi'i leoli o amgylch Ystradgynlais, un o Ferthyr Tudful ac un arall yn ardal Y Fenni/Crucywel ac un arall sydd wedi dechrau'n ddiweddar yn y Gelli Gandryll. Nod y prosiect yw cefnogi pobl hŷn i aros yn egniol, mwynhau'r awyr agored a chwmmi eu cyd-gerddwyr; a gwella eu hiechyd a'u lles. Mae'r awyrgylch yn gadarnhaol ac yn gefnogol iawn ac mae'r rhai sy'n cymryd rhan wedi adrodd eu bod yn teimlo'n iachach, yn fwy heini, a'u bod yn mwynhau chwmmi eu cyd-gerddwyr. Nod hirdymor y prosiect yw i'r grwpiau barhau i gerdded gyda'i gilydd heb fewnbnw pellach gan y prosiect. Mae effaith y prosiect yn cael ei werthuso gan Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd.

**Mae'r prosiect yn rhad ac am ddim i gymryd rhan, a chaiff ei ariannu gan Chwaraeon Cymru a Chronfa Datblygu Cynaliadwy APCBB. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag: Iona Carati 07854 997561 neu Alex Norman 07854 997579 E-bost: [ActiveAgeing@beacons-mpa.gov.uk](mailto:ActiveAgeing@beacons-mpa.gov.uk)**

## Ysgolion Llysgennad y Parc Cenedlaethol

Mae Swyddogion Addysg y Parc Cenedlaethol wedi bod yn gweithio gydag Ysgol Gynradd Llangatwg yr hydref hwn i'w helpu nhw ganolbwyntio ar sut y gall gweithgareddau yn yr awyr agored wella iechyd a lles a sut y gallan nhw ddefnyddio manau y tu allan i gadw'n iach ac yn hapus.

Ysgol Gynradd Llangatwg yw'r ysgol ddiweddaraf i gymryd rhan yng ngwobr Ysgolion Llysgennad y Parc Cenedlaethol. Yn gynharach eleni Ysgol



**Plant bach o Ysgol Gynradd Llangatwg yng Nghoedwig Ffawydd Llangatwg sy'n eiddo i APCBB ac yn cael ei rheoli ganddo.**

Heronbridge o Ben-y-bont ar Ogwr oedd yr ysgol gyntaf o du allan i'r Parc Cenedlaethol i ymgeisio am y wobwr a'i henniill. Roedd eu hymrwymiad i ddysgu yn yr awyr agored yn wirioneddol ysbrydoledig a sbardunwyd eu diddordeb yng nghynllun Ysgolion Llysgennad y Parc Cenedlaethol yn dilyn sesiwn hyfforddi fin nos i athrawon ym Mharc Gwledig Craig-y-nos.

Mae'r Tîm Addysg yn gymwys i gynnal gweithgareddau sy'n rhoi profiad ac ymchwil uniongyrchol i ddisgyblion er mwyn eu cysylltu â'u hamgylchedd unigryw. Maen nhw wedi ymrwymo i ddarparu addysg yn yr awyr agored o safon uchel yn Gymraeg ac yn Saesneg yn y Parc Cenedlaethol.

**Os hoffech chi ragor o wybodaeth am ein gwasanaethau addysg cysylltwch â: [lora.davies@beacons-mpa.gov.uk](mailto:lora.davies@beacons-mpa.gov.uk). Am wybodaeth ynghylch ein holl Gyrsiau Addysg edrychwch ar ein llyfryn newydd: <https://www.beacons-mpa.gov.uk/wp-content/uploads/Education-Brochure-2019.pdf>**






Hyfforddeion rhaglen Sgiliau Gwledig Bannau Brycheiniog, Sam, Ethan, Ty, Jordan a Jake.

## Hyfforddeion Sgiliau Gwledig Bannau Brycheiniog

Yn ddiweddar, cwblhaodd pum person ifanc ffodus iawn brentisiaeth tri mis gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Ymddiriedolaeth y Tywysog fel rhan o brosiect Sgiliau Gwledig Bannau Brycheiniog a ariennir gan Gynllun Datblygu Gwledig LEADER Powys.

Mynychodd Sam, Ethan, Ty, Jordan a Jake i gyd raglen Sgiliau Gwledig pythefnos o hyd i ddechrau yn ôl ym mis Ebrill a chawsant eu dewis i symud ymlaen i'r brentisiaeth a oedd yn cael ei chynnal o fis Mai i fis Gorffennaf eleni. Bwriad y rhaglen sgiliau gwledig 'Get Into' yw rhoi cyfle i bobl ifanc 18-30 oed ym Mhowys ddysgu sgiliau newydd yn yr awyr agored, a chefnogi Wardeiniaid Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i warchod yr ardal.

O ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglen sgiliau gwledig 'Get Into', mae Sam wedi cael ei ddewis gan Ymddiriedolaeth y Tywysog i gychwyn ar daith fythgofiadwy. Cynigiwyd lle iddo ar long Gordonstoun's Ocean Spirit Training Vessel ac ym mis Gorffennaf hwyliodd hi yng nghylch yr Arctig gan archwilio arfordir dramatig Spitzbergen. Mae'r daith yn cynnig mynediad breintiedig drwy'r môr a'r tir i un o'r ardaloedd mwyaf amgylcheddol sensitif yn y byd ac mae'n gyfle arbennig i archwilio'r Arctig sy'n newid yn gyflym. Mae carfan arall o'r rhaglen (y pumed) yn rhedeg o Fedi i Ragfyr eleni.



Argraff arlunydd o'r model 3D newydd o'r Pwynt Darganfod.



Argraff arlunydd o'r 'monolithiau' gwybodaeth newydd ym Mharc Gwledig Craig-y-nos.

## Pwynt Darganfod y Geoparc – Yn Dod Yn Fuan

O Fedi 2019 bydd Parc Gwledig Craig-y-nos yn gartref i Bwynt Darganfod newydd y Geoparc. Mae Geoparc Fyd-eang UNESCO y Fforest Fawr yn cwmpasu hanner gorllewinol y Parc Cenedlaethol a bydd y Pwynt Darganfod newydd yn caniatáu i bobl gynllunio eu hymweliad a darganfod mwy am y Geoparc.

Bydd yr ardal teras y tu allan i'r bwyty yng Nghraig-y-nos yn cynnal model efydd 3D o ran helaeth o Gwm Tawe uchaf, sef yr ardal o amgylch y Parc Gwledig. Ar hyn o bryd, mae'r model yn cael ei gynllunio gan yr artist lleol Ruben Eynon a bydd yn cael ei gastio mewn fforddri yng Nghymru cyn cael ei leoli yn y fan a'r lle yn ddiweddarach yn yr haf.

Bydd tair monolith pren newydd yn darparu ysbrydoliaeth a gwybodaeth ar lefydd i ddarganfod yn y Geoparc ehangach. O amgylch y teras bydd meinciau newydd gyda byrddau dehongli, pob un â thema wahanol, gan roi rhywbeth i ymwelwyr ei archwilio tra'n mwynhau lluniaueth a'r golygyfeydd. I gael y newyddion diweddaraf dilynwch @fforestfawrgeoparc ar Facebook ac Instagram.

Mae'r cyllid ar gyfer y Pwynt Darganfod yn cael ei ddarparu gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru.

## Canolfan Groeso Talyllyn yn cystadlu yn erbyn y TARDIS

Efallai nad yw'n fwy ar y tu mewn, ond fel un o'r Canolfannau Groeso lleiaf yn y DU, mae Blwch Ffôn y ganolfan groeso yn darparu taith fer a chyflym mewn amser, gan roi darlun clir o'r etifeddiaeth hanesyddol a adawyd gan bobl Talyllyn.

Llwyddodd Grŵp Hanes Llyn Syfaddan i ailddatblygu'r blwch ffôn model K6, diolch i grant o £5,907 gan Gronfa Datblygu Cynaliadwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Dywedodd Roger Reece, o Grŵp Hanes Llyn Syfaddan, y byddai'n cael ei gau pan welodd y Grŵp Hanes gyfle i drawsnewid y nodwedd hon, a oedd mor boblogaidd yn Nhalyllyn. "Fel rhan o Gynllun Mabwysiadu Ciosg British Telecom, daeth Cyngor Cymuned Llangors yn berchnogion balch ar y blwch ffôn ym mis Gorffennaf 2017, gyda'r Grŵp Hanes yn cymryd cyfrifoldeb am ei ddatblygu a'i reoli. Mae'r blwch wedi cael ei ailwampiad yr oedd mawr ei angen - cafodd ei ailbentio a'i drwsio, a gosodwyd dehongliadau dwyieithog ynghyd ag amrywiaeth o ffotograffau lleol a gofod hysbysebu ar gyfer busnesau. Mae hyn wedi ei drawsnewid yn Ganolfan Ymwelwyr fach i hyrwyddo hanes a diwylliant lleol, y cyfleoedd sydd i ymwelwyr yn yr ardal a'n busnesau lleol."

Am fwy o wybodaeth am Grŵp Hanes Llyn Syfaddan a'u gwaith ewch i wefan y grŵp - <https://www.llangorsehistory.org>





Clirio'r planhigfeydd conwydd i ganiatáu ail-gyflwyno rhywogaethau brodorol.

## Adfer Rhyfeddod Hynafol

**Ers rhai blynyddoedd bellach, mae gwaith sylweddol wedi bod yn digwydd yn yr hen Weithfeydd Powdwr Gwn ym Mhontneddfechan. Nid yw'r holl weithgarwch yn canolbwyntio ar warchod olion a fflora a ffawna hanesyddol y safle hwn yn unig, ond yn ei ddathlu hefyd.**

Nawr bod yr adfeillion wedi cael eu hachub, mae'n bryd canolbwyntio ar y fioamrywiaeth sydd i'w chael yn y dyffryn afon hyfryd hwn. Mae'r ceunentydd uchel, cul yn yr ardal hon, ynghyd â'u hafonydd sy'n llifo'n gyflym, yn creu'r amodau perffaith i'n coedwig law Geltaidd ffynnu, gan ei arwain i gael sicrhau'r amddiffyniad gorau o ran bioamrywiaeth.

Mae deg rhywogaeth wahanol o ystlumod, dros 100 o rywogaethau o wyfynod, cannoedd o blanhigion coetir hynafol a rhai o'r mwsoglau a'r cennau mwyaf prin yn byw yng Nghwm Mellte ymhlith y coetir hynafol a geir yno.

Fodd bynnag, yn y 1960au, dewiswyd yr ardal hon ar gyfer planhigfeydd mawr o rywogaethau conwydd anffrodorol i ailstocio cyflenwad pren y genedl. Nid yn unig mae'r rhywogaethau yn rhwystro golau sy'n cyfyngu ar dyfiant planhigion ond maent hefyd yn darparu ffracsion o'r maetholion y gall ein coed brodorol a'n fflora ar y ddaear eu rhoi.

Gan na ellir cynaeafu'r pren yn fasnachol, rydym ni'n camu i mewn. Ar hyd glan yr afon, mae rhai o'r rhywogaethau anffrodorol yn cael eu tynnu oddi yno i'w hamnewid am goed derw, bedw, cyll, llwyfen llydanddail a choed crafol lleol.

Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, dylai arwyddion bod planhigion coetir hynafol yn dychwelyd ddod i'r amlwg yn fuan.



Gwybodaeth yn Sioe Aberhonddu. Robo Flail yn Nhy'r Ash, Crucywel.

## Goresgynwyr y Parc Cenedlaethol - Y Diweddaraf

Yn ystod ei ail flwyddyn, mae'r prosiect peilot wedi canolbwyntio ei waith arolygu a rheoli ar ddau rywogaeth o blanhigion estron goresgynnol (INNS) sef Jac y neidiwr – *Impatiens glandulifera*, a chlymog Japan – *Fallopia japonica*, ar afon Wysg ac afon Tawe o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. O fewn y Parc, gellir dod o hyd i'r rhywogaethau hyn o blanhigion anffrodorol ymledol ar hyd cyrsiau dŵr a chulffyrdd, ar safleoedd tir diwydiannol ac ardaloedd amwynder; mewn gerddi, ac ar dir fferm.

**Mae uchafbwyntiau'r prosiect dros yr haf yn cynnwys:**

- helpu grŵp gwirfoddolwyr PLAN Brecon i glirio Jac y Neidiwr o Island Fields
- cael gwared ar Jac y Neidiwr ym Mharc Gwledig Craig-y-nos a ger Cronfa Ddŵr Cray bob mis
- helpu Grŵp Coetir Cymunedol Llangatwg i glirio Jac y Neidiwr yn Nhy'r Ash ger Crucywel (gyda chlystyrau mwy o'r planhigion yn cael eu malu gan ddarn newydd o beirianwaith, sef y Robo Flail)
- mynychu Sioe Aberhonddu lle dysgodd Jane Dodds, yr Aelod Seneddol newydd, am rywogaethau goresgynnol.
- lansio cynllun grantiau bach ar gyfer rheoli clymog Japan yng Nghwm Tawe Uchaf.

Sut y gallwch chi helpu? Drwy roi gwybod os gwelwch chi'r planhigion hyn, defnyddiwch y manylion cyswllt isod neu anfonwch hwy'n uniongyrchol at BIS ([www.bis.org.uk](http://www.bis.org.uk) neu ffôn: 01874 610881). Gallwch hefyd ddweud wrth BIS eich bod wedi gweld y planhigion gan ddefnyddio WiReD neu defnyddiwch ap y Ganolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol (LERC) i gofnodi unrhyw INNS ar eich ffôn symudol tra byddwch allan.

## Bysedd Gwyrdd yng Ngardd Henry Vaughan

**Efallai eich bod wedi sylwi ar newid mawr yng Ngardd Henry Vaughan yn Nhal-y-bont ar Wysg yn ddiweddar. Diolch i grant Cronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) o £1,773, mae gwaith wedi'i wneud i ddatblygu isadeiledd y gerddi gan gynnwys plannu llawer o blanhigion newydd, adnewyddu'r bwrdd gwybodaeth a gosod mainc a bwrdd picnic newydd, a wnaed yn lleol o blastigau amaethyddol wedi'u hailgylchu. Dyma ddiwedd cyfnod o waith a ddechreuodd yn ôl yn ngwanwyn 2018.**

Cyflawnwyd hyn i gyd gyda llawer o ymdrech gan wirfoddolwyr, gan gynnwys grŵp Cubs o Grŵp Sgowntiaid Iaf Llangynidr a baratodd a phlannodd welyau o berlysiâu newydd ac adeiladu gwastai i chwilio allan o ddefnyddiau a ailgylchwyd. Mae'r prosiect wedi adnewyddu diddordeb y gymuned yn yr ardd ac mae cyflwyno amrywiaeth ehangach o berlysiâu blodeuol a llysiâu wedi cynyddu bioamrywiaeth yr ardal. Mae trawsnewid yr ardal wedi creu amgylchedd i bobl leol ac ymwelwyr ei fwynhau a bydd yn gwarhod y dreftadaeth ddiwyllianol ac yn gwella harddwch naturiol yr ardal. Yn ogystal â'r grant CDC, cefnogwyd y prosiect gyda chyfraniadau gan Gymdeithas Vaughan a rhoddwyr lleol.

**Cubs o Sgowntiaid Iaf Llangynidr yn gweithio'n galed**



Llun gan Scott Goodsell



Hyfforddeion Ymddiriedolaeth y Tywysog a chyfranogwyr o'r Prosiect Bywydau lach ar safle blodau gwyllt Camden Road.

## Blodau gwyllt o gwmpas Aberhonddu

Er mwyn helpu i wella bioamrywiaeth o amgylch Aberhonddu, mae Tîm Cymunedau Cynaliadwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Sir Powys (CSP) i droi rhai o'r lleiniau wrth ymyl y ffordd yn ddolydd o flodau gwyllt.

Fel arfer, mae lleiniau wrth ymyl y ffordd yn gymysgedd o laswellt prysgwydd sy'n cynnig cynefinoedd gwael i bryfed peillio a bywyd gwyllt arall. Dewiswyd dau safle fel prosiect peilot, y naill ar Camden Road a'r llall ar Cradoc Road. Yna, sicrhawyd arian o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy i brynu'r hadau oedd eu hangen, a darparodd Tîm Wardeiniaid Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru 250 o eginblanhigion y gribell felen gan y bydd hyn yn lleihau egni'r glaswellt a fydd yn galluogi'r blodau gwyllt i ffynnu.

Cafodd y safleoedd eu paratoi a'u hau ym mis Ebrill 2019 a gwnaed hyn gyda chymorth Hyfforddeion Ymddiriedolaeth y Tywysog a grŵp o'r Prosiect Bywydau lach sy'n cynnwys pobl ag anableddau dysgu yn Aberhonddu. Bydd y safleoedd yn cael eu torri unwaith yn yr hydref a'u gadael i hunan-hadu yn ystod y blynyddoedd nesaf. Nodwyd lleiniau ymyl y ffordd ar gyfer y dyfodol gan CSP a'r bwriad yw y bydd hyn yn arwain at brosiect mwy sy'n cynnwys cymunedau yn fwy yn y dyfodol agos.

Blodau gwyllt yn blodeuo wrth ymyl y ffordd.



Pobl ifanc o Gastell-nedd Port Talbot yn pigo sbwriel o amgylch y Sgydau.



Aelodau o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn Sgwd y Pannwr.

## Pobl Ifanc yn Gofalu am yr Amgylchedd

Ar ddiwrnod heulog ym mis Awst, daeth naw o bobl ifanc allan i gasglu sbwriel o amgylch Gwlad y Sgydau fel rhan o weithgareddau a gynhaliwyd gan Wasanaethau Plant Castell-nedd Port Talbot dros yr haf. Gyda'r bwriad o roi ymdeimlad o bwrpas i'r bobl ifanc am y diwrnod ac mewn partneriaeth â gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, cawsant eu harwain gan Swyddogion o'r tîm Cymunedau Cynaliadwy a drafododd y problemau y mae sbwriel yn ei achosi i fywyd gwyllt ac i bobl a hefyd y problemau gyda llosgi bwriadol a thanau mynydd yn y Parc a'u heffaith ar yr amgylchedd.

Casglwyd pedwar bag mawr o sbwriel o gwmpas Sgwd Clun Gwyn, Sgwd y Pannwr a'r llwybrau troed o'u hamgylch ac fe'u cariodwyd yn ôl i Gwm Porth mewn hwyliau da. Dywedodd Darren Bartley, Swyddog Ymgysylltu a Chyfranogi Gwasanaethau Plant CBS Castell-nedd Port Talbot hyn am y diwrnod, 'Hoffwn ddiolch unwaith eto i staff Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog am ddarparu diwrnod gwych i staff Gwasanaethau Plant a Phobl ifanc Castell-nedd Port Talbot. Cyflwynodd y diwrnod olygfeydd anhygoel a theithiau cerdded heriol. Roedd y bobl ifanc wrth eu boddau yn helpu i gynnal harddwch dihalog Parc Bannau Brycheiniog drwy gasglu sbwriel a chawsant bicnic haeddiannol yn Sgwd y Pannwr: Fe'i gwnaed yn fwy cofiadwy wrth ymweld â'r 'Bat Cave' (Porth yr Ogof). Dim ond gyda chydweithrediad Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a fu'n ein cludo ac a ymunodd â ni am y diwrnod y llwyddwyd i wneud y digwyddiad hwn yn bosibl. Mae profiadau o'r fath yn hanfodol i helpu i wella iechyd a lles pobl ifanc mewn gofal a hyrwyddo sgiliau perthynas ynghyd â meithrin hyder a hunan-barch.'



## Adrodd am Faterion Hawliau Tramwy

Gellid sôn am unrhyw faterion yn ymwneud â hawliau tramwy fel difrod i lwybrau troed, camfeydd neu fynegbyst wrth ein Swyddog Hawliau Tramwy, Eifion Jones:

eifion.jones@beacons-npa.gov.uk  
neu ffoniwch 01874 620452

## Cymhorthfa Gynllunio

Am gyngor ar ddatblygiadau i ddeiliaid tai ac ymholiadau cyffredinol, bob dydd Mercher, o 9.30 -12.00 yb a 1.30-3.00 yb yn Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol, Aberhonddu. Mae apwyntiadau ar gael am gyfnodau o 30 munud, a rhaid eu harchebu ymlaen llaw.

Am apwyntiad neu unrhyw ymholiad cynllunio cyffredinol ffoniwch 01874 620431 os gwelwch yn dda.

## Ymholiadau am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

I gael mwy o wybodaeth a chyngor am y Gronfa hon ewch i <http://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/cynaliadwyedd-2/ly-gronfa-datblygu-cynaliadwy/> neu cysylltwch naill ai â

Helen Roderick  
neu Ceri Bevan ar 01874 620471

Ebostiwch  
helen.roderick@beacons-npa.gov.uk  
ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk

Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau i'r chwe mis nesaf:

- 27 Tachwedd 2019
- 15 Ionawr 2020
- 18 Mawrth 2020



Ymweliad Llandeilo Bertholau â Phriordy Llanddewi Nant Hodni ym mis Gorffennaf

## Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon - Cam Tri



Yn ddiweddar, lansiodd Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon drydydd cam ei rhaglen addysg a ddarperir gan dîm Addysg y Parc Cenedlaethol, a ariennir drwy Gynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Gan weithio gydag ysgolion lleol, mae'r Partneriaeth yn gobeithio ysbrydoli plant ysgol i werthfawrogi a deall yr hyn sy'n arbennig am y Mynyddoedd Duon, sut mae ffermio'n bwysig i fywyd gwylt a phobl, effeithiau ymwelwyr a newid hinsawdd a chael gwybod am y prosiect partneriaeth cyfredol ar raddfa'r dirwedd.

Gan gyfarfod â phlant ysgol lleol yn adfeilion prydferth ac atgofus Priordy Llanddewi Nant Hodni, mae'r grwpiau'n cael eu tywys ar hyd llwybrau hynafol i Hatterall Hill. Mae'r rhostir ysgubol hwn yn cael ei siapiro gan bori da byw ac arferion traddodiadol fel llosgi grug. Mae'r daith gerdded yn galluogi'r disgyblion i fwynhau'r golygfeydd ysbennedd, gan roi cyfle iddynt arsylwi a thrafod arferion ffermio mynydd, yn y gorffennol a'r presennol. Wrth atgyfnerthu nodau camau un a dau y prosiect, a oedd yn cynnwys ymweliadau â'r Gelli Gandryll a Chapel Pen yr Heol.

Mae'r arian i wneud hyn oll yn bosibl wedi'i roi gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru drwy brosiect Cynllun Rheoli Cynaliadwy.

## Y Diweddaraf am Wlad y Sgydau

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi parhau â'i gwaith gyda sefydliadau partner i adnabod canlyniadau cynaliadwy, hirdymor ar gyfer yr ardal a elwir yn Wlad y Sgydau. Ar hyn o bryd, mae'r bartneriaeth yn cynnwys y grŵp craidd a gefnogodd y broses o greu Astudiaeth Traffig Ymwelwyr 2018; tri Chyngor Castell-nedd Port Talbot, Powys a Rhondda Cynon Taf, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cynghorau Cymuned sy'n cynrychioli Pontneddfechan, Ystradfellte, Penderyn a Hirwaun. Mae'r grŵp yn agos i'r pwynt lle y gall ehangu ei gyraeddiad a derbyn ardaloedd a phartneriaid cyfagos, fel y bydd y manteision posibl i'r amgylchedd, i bobl ac i'r economi leol lle mae eu hangen fwyaf.

Nod y bartneriaeth yw datrys materion hirsefydlog sy'n ymwneud â nifer uchel o ymwelwyr, cyflawni mwy o fuddion cymunedol a gwella seilwaith a chyfleusterau lleol, gan roi ein hased mwyaf gwerthfawr; yr amgylchedd naturiol, wrth wraidd hyn.

Yn y tymor byr, mae staff a phartneriaid Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi bod yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r pryderon uniongyrchol a godwyd gan gymunedau lleol o ran rheoli effaith y cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer yr ymwelwyr. Lle rydym wedi gallu negodi datrysiadau, rydym wedi gwella llif traffig, wedi lleihau tagfeydd ac wedi nodi parcio ychwanegol, ac rydym yn ddiolchgar i'r rhai sydd wedi gweithio gyda ni i gyflawni hyn.

Mewn trafodaeth â phartion sydd â diddordeb, byddwn yn ceisio ffurfioli rhai o'r datrysiadau dros dro hyn dros y misoedd nesaf a pharhau i weithio gyda'nartneriaid, unigolion a chymunedau lleol i ddod o hyd i atebion mewn ardaloedd lle mae'r sefyllfa yn fwy cymhleth.

## Eisiau ystafell gyfarfod yn Aberhonddu?

Mae'r canlynol ar gael i'w llogi gennym:

- Ystafell gynhadledd
- Ystafell Aelodau Fideo-gynadledda
- Ystafell Ymgynnull Fach

Gwasanaeth Arlwyyo ar gael  
Am fanylion cysylltwch â'r  
Dderbynfa 01874 624437  
neu edrychwch ar  
<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/llogi-ystafell/>

## Pabell Fawr Gymunedol Ar Gael

Mae cynllun benthyc y Babell Fawr  
Gymunedol yn cynnig cyfle i grwpiau,  
ysgolion, elusennau a sefydliadau  
dielw eraill o fewn y Parc  
Cenedlaethol ddefnyddio'r Babell  
Fawr Gymunedol 20'x30' yn eu  
digwyddiadau lleol. Gofynnir am rodd.

I gael ffurflenni archebu,  
cysylltwch â Ceri Bevan ar  
01874 620471  
[ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk](mailto:ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk)

## Gweddarllediadau

Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod  
ar gael i'w gweld trwy ficrowefan ein  
gweddarllediadau. Ewch i:

<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/gweddarlledu/>

## Digwyddiadau

Am restr gyflawn a manylion pellach am y gweithgareddau  
a'r digwyddiadau yn y Parc Cenedlaethol ewch i  
<http://www.breconbeacons.org/events?lan=cy>

**18 Hydref 2019 | 19:00 – 22:00**

## Syllu ar y sêr yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

Mae tocynnau yn £15.00 sy'n cynnwys coffi a chacen i roi dechrau gwych i'ch noson.

Bydd y digwyddiad yn dechrau am 7.00pm. Gwisgwch ddillad cynnes os gwelwch yn dda. Trefnir y digwyddiad gan Ganolfan Ymwelwyr Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar y cyd ag Awyr Dywyll Cymru.



MICHAEL SINCLAIR



## A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswllt/Swyddogion	Manylion Cyswllt	Rhif ffôn
Ymholiadau cyffredinol	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Addysg, Dehongli a Gwybodaeth	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Adnoddau Dynol	Liz Lewis	elizabeth.lewis@beacons-npa.gov.uk	01874 620436
Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, 'Y Ganolfan Fynydd', Libanus	Gwasanaethau Ymwelwyr	npvc@beacons-npa.gov.uk	01874 623366
Cyfarwyddwr Darparu	Steve Gray	angharad.hawkes@beacons-npa.gov.uk	01874 620438
Cyfathrebu	Emma Gray	communications@beacons-npa.gov.uk	01874 620406 01874 620420
Cymunedau cynaliadwy	Ceri Bevan/Helen Roderick Francesca Bell	communities@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Cyllid	Elaine Standen	elaine.standen@beacons-npa.gov.uk	01874 620467
Cynllun Rheoli	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Ecoleg	Brad Welch	bradley.welch@beacons-npa.gov.uk	01874 620411
Gwasanaethau Democraidd a Swyddfa	Julia Gruffydd	julia.gruffydd@beacons-npa.gov.uk	01874 620400
Geoparc Fforest Fawr	Alan Bowring	alan.bowring@beacons-npa.gov.uk	01874 620415
Gorfodi Cynllunio	Kathy Jenkins	enforcement@beacons-npa.gov.uk	01874 620416
Gweinyddiaeth y Gwasanaethau Cynllunio	Jane Pashley	planning.enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 620422
Gwirfoddoli	Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr	volunteer.officer@beacons-npa.gov.uk	01874 620451


### Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian  
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>


## Cadwch mewn cysylltiad â'r diweddaraf

Erbyn hyn mae hyd yn oed mwy o ffyrdd i gael gwybod y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

 **Gallwch gysylltu â ni ar @croesobannaub**  
.....

**Dilynwch ni drwy Facebook**  
[www.facebook.com/bannaubrycheiniog](http://www.facebook.com/bannaubrycheiniog)  
.....

**Gweler y fideos ar ein sianel Youtube**  
[www.youtube.com/user/BreconBeaconsNPA](http://www.youtube.com/user/BreconBeaconsNPA)  
.....

 **[www.instagram.com/breconbeacons](http://www.instagram.com/breconbeacons)**

## A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswllt/Swyddogion	Manylion Cyswllt	Rhif ffôn
Hawliau Tramwy	Eifion Jones	<a href="mailto:eifion.jones@beacons-npa.gov.uk">eifion.jones@beacons-npa.gov.uk</a>	01 874 620452
Parc Gwledig Craig-y-nos Pen-y-Cae	Derbynfa	<a href="mailto:enquiries@beacons-npa.gov.uk">enquiries@beacons-npa.gov.uk</a>	01 874 624437
Prif Weithredwr	Julian Atkins	<a href="mailto:jean.packer@beacons-npa.gov.uk">jean.packer@beacons-npa.gov.uk</a>	01 874 620469
Strategaeth a Pholisi Cynllunio	Helen Lucocq	<a href="mailto:helen.lucocq@beacons-npa.gov.uk">helen.lucocq@beacons-npa.gov.uk</a>	01 874 620442
Technoleg Gwybodaeth	Paul Funnell	<a href="mailto:paul.funnell@beacons-npa.gov.uk">paul.funnell@beacons-npa.gov.uk</a>	01 874 620459
Treftadaeth	Alice Thorne Archaeoleg Janet Poole Cadwraeth Adeiladau	<a href="mailto:alice.thorne@beacons-npa.gov.uk">alice.thorne@beacons-npa.gov.uk</a> <a href="mailto:janet.poole@beacons-npa.gov.uk">janet.poole@beacons-npa.gov.uk</a>	01 874 620418 01 874 620413
Twristiaeth gynaliadwy	Richard Tyler	<a href="mailto:richard-tyler@beacons-npa.gov.uk">richard-tyler@beacons-npa.gov.uk</a>	01 874 620405
Y Gwasanaeth Wardeniaid	Judith Harvey	<a href="mailto:judith.harvey@beacons-npa.gov.uk">judith.harvey@beacons-npa.gov.uk</a>	07854 997510



### Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian  
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>

ffotograffau © APCBB